Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
cadw.llyw.cymru

Welsh Government
Rhydycar Business Park
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
cadw.gov.wales

Penaethiaid Cynllunio
Awdurdodau Cynllunio yng Nghymru

21 Awst 2024

**Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 - Gwybodaeth i Awdurdodau Cynllunio ar weithredu a chychwyn**

Annwyl gydweithiwr,

Mae cynnydd cyson yn cael ei wneud ar weithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Deddf 2023) ac rydym bellach yn disgwyl ei rhoi ar waith ar 4 Tachwedd 2024.

Bydd Deddf 2023 yn diddymu'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer amddiffyn amgylchedd hanesyddol Cymru — yn bennaf Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a'r Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yng Nghymru — gan ei ddisodli â chyfraith hygyrch a chwbl ddwyieithog ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru.

Bydd wyth set o is-deddfwriaethau yn ategu Deddf 2023, gyda rhai yn disodli rheoliadau amlwg megis Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012. Y bwriad yw dod â'r is-ddeddfwriaeth hon i rym ochr yn ochr â'r Ddeddf ar 4 Tachwedd.

Y bwriad yw gweithredu'r rheoliadau hyn cyn diwedd mis Medi, ac ar yr adeg honno byddant ar gael i ymgynghori yn eu cylch yn legislation.gov.uk. Dylai'r rheoliadau ddod i rym ochr yn ochr â'r Ddeddf ar 4 Tachwedd 2024. Darperir teitlau dwyieithog y rheoliadau yn Atodiad 1.

Er y bydd y Deddfau a'r rheoliadau sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli a diogelu'r amgylchedd hanesyddol yn newid ym mis Tachwedd, mae'n bwysig pwysleisio na fydd polisi ac effaith y gyfraith yn newid.

Mae rhagor o wybodaeth am Ddeddf 2023 ar gael ar wefan Cadw a bydd y cynnwys yn cael ei ddiweddaru a'i ddatblygu ymhellach yn y misoedd nesaf.

Defnyddiwch y wybodaeth ar wefan Cadw neu yn legislation.gov.uk i adolygu a diweddaru gwybodaeth ar eich gwefan ac mewn unrhyw ganllawiau, ffurflenni neu ddeunyddiau eraill rydych chi'n eu rhannu er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ar gyfer y cychwyn disgwyliedig ym mis Tachwedd. Mae gwaith eisoes ar y gweill i ddiweddaru'r apiau 1App ar y Porth Cynllunio i adlewyrchu cychwyn Deddf 2023.

Byddwn yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sydd gennych chi ac mae croeso i chi gysylltu â DeddfwriaethAmgylcheddHanesyddol@llyw.cymru

Dymuniadau gorau
**Tîm Deddfwriaeth a Pholisi Cadw**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government